Urdd

# *Canllawiau Cystadlu Eisteddfodau*

# *a Celf a Chrefft*

# Rhanbarth Ynys Môn - 2016

Os am gystadlu yn yr Eisteddfodau eleni, rhaid darllen y llyfryn hwn yn fanwl.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystadleuwyr, hyfforddwyr a chefnogwyr ymrwymo i ysbryd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r Mudiad.

Pob hwyl gyda'r cystadlu!

Eryl, Carol a Seiriol

Urdd Gobaith Cymru, Ysgol Uwchradd Bodedern, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
Uwch Swyddog Datblygu: Eryl Williams Ffôn: 01407 470010 E-bost: eryl@urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

# Rhanbarth Ynys Môn

Ynys Môn

**Uwch Swyddog Datblygu – Eryl Williams**

## Eisteddfodau Urdd Gobaith Cymru - Ynys Môn 2016

Ionawr 11eg 2016

Annwyl gyfaill

Llyfryn yw hwn i esbonio nifer o bwyntiau sy’n codi ynglŷn â’r Eisteddfodau a’r rheolau sydd yn rhaid eu dilyn.  Gobeithio y bydd o fudd i chi ac yn ateb unrhyw gwestiwn neu ymholiad.

Os nad yw'r ateb yma cysylltwch ag Eryl Williams (01407 470 010)

**EISTEDDFODAU CYLCH 2016 – amseroedd i’w gadarnhau.**

| | |
|---|---|
| **CYLCH CEFNI** | **Eisteddfod Cylch Cefni**<br>Dydd Sadwrn, Chwefror 27ain<br>Ysgol Gyfun Llangefni |
| **CYLCH EILIAN** | **Eisteddfod Cylch Eilian**<br>Dydd Sadwrn, Chwefror 27ain<br>Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch |
| **CYLCH ALAW / CYBI** | **Eisteddfod Cylch Alaw / Cybi**<br>Dydd Sadwrn, Mawrth 5ed<br>Ysgol Uwchradd Bodedern |
| **CYLCH GLANNAU MENAI** | **Eisteddfod Cylch Glannau Menai**<br>Dydd Sadwrn, Mawrth 5ed<br>Ysgol Gyfun David Hughes |
| **CYLCH CEFNI** | Eisteddfod Cerdd Dant<br>Nos Fawrth Mawrth 8fed<br>Ysgol y Graig, Llangefni |

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

Ynys Môn

**EISTEDDFODAU RHANBARTH 2016**

| | |
|---|---|
| **EISTEDDFOD UWCHRADD** | Dydd Sadwrn, Mawrth 12fed<br>Ysgol Uwchradd Bodedern |
| **EISTEDDFOD DDAWNS** | Nos Llun, Mawrth 14eg<br>Ysgol Syr Thomas Jones, 4.30yh |
| **EISTEDDFOD dan 25ain** | Nos Fawrth Mawrth 15fed<br>Ysgol Uwchradd Bodedern |
| **EISTEDDFOD CYNRADD** | Dydd Sadwrn, Mawrth 19eg<br>Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch |
| **CELF A CHREFFT** | Derbyn – Dydd Gwener Ebrill 22ain<br>Gampfa Ysgol Uwchradd Bodedern 3:30yp – 6:00yh<br>Beirniadu – Dydd Sadwrn Ebrill 23ain<br>Ysgol Uwchradd Bodedern<br>Casglu gwaith anfuddugol – Dydd Llun Ebrill 25ain Ysgol Uwchradd Bodedern 3:30yp – 6:00yh<br>Gwobrwyo – Nos Fercher Ebrill 27ain<br>Ysgol Uwchradd Bodedern – 6:30yh<br><br>**Dyma fydd yr unig gyfle i weld y gwaith buddugol.** |

**PWYSIG! DYDDIAD CAU AR GYFER COFRESTRU**

Chwefror 9fed – Dyddiad cau ar gyfer cofrestru (bydd eich cyfnod gwirio yn weithredol tan 18.00 ar y 12fed o Chwefror ) Ni fyddwn yn derbyn cystadleuwyr ar ôl y cyfnod gwirio.

Rhaid i **DDAU** gopi o ddarnau hunan ddewisiad gyrraedd eich Ysgrifennydd Cylch/Rhanbarth erbyn y y 12fed. Gofalwch nodi enw, ysgol, cystadleuaeth ac ati ar y copi.

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

RHESTR YSGRIFENYDDION Y CYLCHOEDD

| CYLCH CYNRADD AC UWCHRADD | YSGRIFENYDDION |
|---|---|
| **Cefni** | **Greta Stuart, Rhyd Dafydd, Rhosgoch, Amlwch, Ynys Môn. LL66 0BJ -Rhif ffôn 01407 830 567**<br>**e-bost greta.stuart@llandegfan.anglesey.sch.uk** |
| **Eilian** | **Alwen Jones, Llifon,21 Tan y Bryn Road,Amlwch,Ynys Môn**<br>**LL68 9BD 01407 831353 Alwen Jones**<br>**alwen_jo@yahoo.co.uk** |
| **Alaw/Cybi** | **Dion Owen,Ysgol Llannerchymedd, Ynys Môn**<br>**Dion_owen11@hotmail.com 07763074460** |
| **Glannau/ Menai** | **Emma Owen, Ysgol Llanfairpwll, Llanfairpwll, Ynys Môn**<br>**Emmatelford27@btinternet.com 07989327589** |
| **Eisteddfod Sir Cynradd** | **Helen Evans, Tal Eilian, Talwrn, Llangefni, Ynys Môn**<br>**LL77 7TF 01248 723038 taleilian@hotmail.co.uk** |
| **Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd** | **Helen Evans, Tal Eilian, Talwrn, Llangefni, Ynys Môn**<br>**LL77 7TF 01248 723038 taleilian@hotmail.co.uk** |

**Rhestr Testunau**

**Mae Rhestr Testunau Eisteddfod Sir y Fflint ar gael ar y we! Os dymunech gopi caled, croeso i chi gysylltu a mi yn y Swyddfa neu www.urdd.cymru/eisteddfod <http://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod> .**

***SYSTEM GOFRESTRU CYSTADLEUWYR EISTEDDFOD YR URDD AR-LEIN***

Mae’r system gofrestru eisoes yn fyw ar-lein . Mae’r system yn dangos holl fanylion y cystadlaethau ynghyd ag enwau a rhifau aelodaeth eich aelodau. Ewch i www.urdd.cymru yna cliciwch ar Eisteddfod/Cystadlu/Cofrestru i Gystadlu. Ewch ati mor fuan â phosib i gofrestru eich cystadleuwyr. Unwaith bydd y dyddiad cau wedi bod ni fydd modd i ni dderbyn enwau hwyr.

- Rhaid cwblhau’r darn hawlfraint yn gyflawn ac yn gywir ym mhob cystadleuaeth nad sydd â darn gosod.
- Rhaid cwblhau ac ateb yr holl ofynion, neu bydd eich cais yn aflwyddiannus.
- Cofiwch nodi cyweirnod cerdd dant

Yn dilyn yr Eisteddfod Gylch gofynnir yn garedig i Ysgrifennydd y cylch drosglwyddo’r canlyniadau **mor fuan â phosib yn dilyn yr Eisteddfod.**

## RHEOLAU CYFFREDINOL

**Cofiwch mai ychydig o reolau detholedig sydd yn cael eu nodi yma. Mae’n holl bwysig eich bod yn darllen y rheolau yn y Rhestru Testunau yn drwyadl.**

## Yr Eisteddfodau

1. **Polisi Iaith**

   Y **Gymraeg** fydd iaith swyddogol yr Eisteddfod. Diben yr Eisteddfod yw hyrwyddo'r diwylliant Cymreig a diogelu'r **iaith Gymraeg**. Rhaid i'r cyfansoddiadau a'r cystadlu fod yn y Gymraeg

- Lle nad oes galw am wybodaeth o'r iaith Gymraeg mae'r cystadlaethau yn agored i unrhyw berson a anwyd yng Nghymru neu y ganwyd un o'i rieni yng Nghymru, neu unrhyw berson sy'n byw yng Nghymru yn union cyn yr Ŵyl neu unrhyw berson sy'n siarad neu ysgrifennu Cymraeg. Rhaid i unrhyw eiriau a osodir fod yn yr iaith Gymraeg

- **Llefaru / Cân Actol / Theatr/ Cyflwyniad Dramatig** - Eithriad gogyfer a phwyslais penodol fydd y defnydd o iaith arall. Ni chaniateir gôr- ddefnydd o iaith arall.

- **Dawnsio Disgo / Cyfoes** - Dylid defnyddio cerddoriaeth a geiriau Cymraeg neu gerddoriaeth offerynnol yn unig fel cyfeiliant.

Ynys Môn

2. **Aelodau'r Urdd**. Dim ond aelodau **llawn** o'r Urdd a ganiateir i gystadlu.

4. **Perfformio_** Rhaid i gystadleuwyr ddysgu'r dasg yn gyfan a bod yn barod i berfformio'r hyn a ofynnir gan y Beirniaid mewn rhagbrawf neu ar y llwyfan. Rhaid iddynt hefyd dderbyn yr argraffiad a'r cyweirnod a geir yn y darn swyddogol a nodir yn y Rhestr Testunau. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol na newid cyweirnod, ac eithrio lle nodwyr hynny yn y Rhestr Testunau.

5. **Copïau o eiriau/gerddoriaeth**
   Ni chaniateir i neb ddefnyddio copïau o eiriau a/neu gerddoriaeth mewn unrhyw fodd, ac eithrio yn yr adran offerynnol.

6. **Darnau cystadlu/cystadleuwyr**
   Rhaid i bob cystadleuydd berfformio/defnyddio'r un darn/darnau o waith ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i'r Eisteddfod Genedlaethol a rhaid cadw at yr un cystadleuwyr trwy gydol y daith i'r Genedlaethol. Nid oes hawl newid cystadleuwyr rhwng y Cylch, y Sir/Rhanbarth a'r Genedlaethol. Anogir pawb mewn cystadlaethau torfol (sef 5 cystadleuydd a throsodd) i restru eilyddion er mwyn osgoi unrhyw anawsterau a all godi.

11. **Dyfarniad y Beirniaid** Bydd dyfarniad y Beirniaid yn **derfynol** ym mhob achos yn unol â chanllawiau'r ŵyl. Dylid cyflwyno unrhyw apêl / protest i sylw trefnydd yr Eisteddfod yn ysgrifenedig o fewn **awr** ar ôl dyfarniad unrhyw gystadleuaeth, ond gellir trafod y mater ar lafar yn ogystal

12. **Amserau Penodol_**Mewn cystadlaethau lle nodir amser penodol rhaid cadw oddi fewn i'r amser a osodwyd. Nid yw'n dderbyniol cynllunio'n fwriadol i berfformio darn dros yr amser penodedig. Ni fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd wedi mynd dros amser. Fe'u cosbir os ydynt dros amser o 15 eiliad, ond mae modd i feirniaid ystyried y ffaith bod cystadleuydd dros yr amser penodedig hyd yn oed os ydynt llai na 15 eiliad drosodd.

    **Noder -** Amserir o'r nodyn cyntaf y cyfeilydd neu'r offerynnwr (pry'n bynnag sy'n dechrau'r darn) Mae unrhyw egwyl/bwlch/saib rhwng darnau yn gynwysedig yn yr amser penodedig. Hefyd mae'r rheol amseru yn sefyll mewn cystadlaethau megis ymgom, cyflwyniad dramatig, cân actol ac ati.

16. **Cystadleuydd yn perthyn i fwy nag un gangen**
    Caniateir i unrhyw aelod o'r Urdd gystadlu yn y rhanbarth lle mae ei gartref neu lle mae'n derbyn ei addysg llawn amser, neu mewn cangen lle mae'n cael ei hyfforddi ar gyfer y gystadleuaeth o dan sylw. Ni all aelod nad yw mewn addysg llawn amser ac sydd wedi gadael ei 'gartref', gysylltu ei hun gyda'r ardal honno fel unigolyn oni bai ei fod wedi ymgartrefu o'r newydd yn yr ardal o dan sylw.

    Rhaid i bob aelod gystadlu mewn cystadlaethau unigol yn yr un gangen, nail ai lle mae ei gartref neu lle mae'n derbyn ei addysg llawn amser yn

unig. Ni fydd modd cystadlu mewn mwy nac un cylch na mwy nac un rhanbarth ar gystadlaethau unigol.
Rhaid i bob aelod gystadlu mewn deuawd, triawd neu bedwarawd nail ail le mae ei gartref neu lle mae'n derbyn ei addysg llawn amser yn unig.
Mae modd cystadlu fel unigolyn yn enw un gangen ac mewn deuawd, triawd, pedwarawd yn enw cangen arall, ond rhaid bod y naill neu'r llall lle mae ei gartref neu lle mae'n derbyn ei addysg llawn amser.

Fe all ddigwydd bod cystadleuydd yn perthyn i fwy nag un gangen - Adran, Ysgol ac Aelwyd er enghraifft. Caniateir i'r aelod hwnnw gystadlu dros y naill gangen neu'r llall ar wahanol gystadlaethau. Fodd bynnag, rhaid dewis cystadlu fel unigolyn yn y naill gangen neu'r llall ond mewn cystadlaethau torfol gall gysylltu ei hun ym mhob achos â 'r gangen a'i hyfforddodd yn y gwaith.
Ni ddylai unrhyw aelod gysylltu ei hun gyda changen sydd gryn bellter o'i gartref heb reswm digonol a synhwyrol.
Ni chaniateir i unrhyw un ymgeisio dros fwy nag un gangen yn yr un gystadleuaeth, na pherthyn i fwy nag un ddeuawd, parti, côr, ac ati yn yr un gystadleuaeth. Ni chaniateir i'r un person chwarae mwy nag un offeryn yn yr un gystadleuaeth offerynnol.
Unwaith yn unig y gellir cystadlu ym mhob cystadleuaeth Celf a Chrefft ond caniateir aelodau gystadlu mwy nac unwaith mewn cystadlaethau cyfansoddi/gwaith cartref adrannau eraill.
Bydd penderfyniad Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau a Chadeirydd yr Urdd yn derfynol ar faterion cystadleuol holl eisteddfodau Urdd Gobaith Cymru. Bydd hawl gan Gadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod i wahodd unigolion ac arbenigwyr i gyfrannu ar y broses apêl, yn ôl y galw.

17. **Aelod Unigol** Ni chaniateir i neb gystadlu fel 'aelod unigol' os oes cangen o'r Urdd yn ei ysgol neu o fewn 10 milltir i'w gartref. **RHAID** iddo gystadlu yn enw'r gangen honno ym mhob achos oni bai fod y gangen agosaf sydd oddi fewn i 10 milltir i'w gartref mewn rhanbarth arall. Mewn achos o'r fath, caniateir i'r aelod gystadlu fel 'aelod unigol' yn ei ranbarth 'gartref'.

**19.Cyfeilyddion Swyddogol. Rhaid i unawdwyr a deuawdwyr lleisiol dderbyn gwasanaeth Cyfeilyddion Swyddogol yr Eisteddfod yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan. Nid yw hyn yn cynnwys unawdwyr offerynnol na'r Unawd allan o Sioe Gerdd.**

**Noder : Os oes angen cyfeilydd swyddogol ar gyfer unrhyw gystadleuaeth arall mae'n ofynnol i'r cystadleuydd rhoi gwybod i Swyddfa'r Urdd yn syth ar ôl eich Eisteddfod Gylch (ynghyd â chopi o'r darn priodol). Os na roddir rhybudd teilwng, bydd hawl gan y cyfeilydd i wrthod chwarae, er tegwch i'r cystadleuydd a'r cyfeilydd.**

**24. Hawlfraint** Mae'n anghyfreithlon gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi'i gyhoeddi. Disgwylir i bob

cystadleuydd ddiogeli hawl perfformio pob darn sydd yn hunan ddewisiad. Oni wneir hyn ni ddarlledir y perfformiad. Ceir cymorth ar glirio hawlfraint ar ein gwefan : www.urdd.cymru <http://www.urdd.cymru> cliciwch ar 'cystadlu' yna dewiswch 'rheolau a chanllawiau/cymorth hawlfraint'. Nid oes angen caniatâd er mwyn perfformio darnau gosod.

Mae copïau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ar gael i'w prynu yn eich siop lyfrau lleol . Mae nifer fechan o gopïau ar gael o Adran yr Eisteddfod yng Nglan-llyn ac mae'r rhain wedi'i nodi ger y cystadlaethau yn y Rhestr Testunau. Yn achlysurol mae copïau yn mynd allan o brint. Yn yr achos hwn, ac os ydych yn hollow siwr nad oes copi ar gael yn lleol cysylltwch ag Adran yr Eisteddfod Glan-llyn ar 01678 541012. Gellir yn ogystal archebu unrhyw gopïau sydd ar gael o Adran yr Eisteddfod ar lein drwy lawr lwytho ffurflen archeb oddi ar ein gwefan www.urdd.cymru/eisteddfod <http://www.urdd.cymru/eisteddfod> drwy ddewis y ddolen cystadlaethau.

25 **Dyddiad i gyfri nifer mewn Ysgol Gynradd** Wrth gyfri y nifer o ddisgyblion mewn cangen ysgol ar gyfer cystadlu dylid eu cyfrif o ddosbarth dderbyn hyd at Flwyddyn 6 ar 31 Ionawr.

## GWAITH CARTREF

Danfoner holl gynnyrch yr Adran gwaith cartref at Swyddfa'r Eisteddfod, Gwersyll Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7ST erbyn 1af o Fawrth.

## CERDDORIAETH

Mae man newidiadau i niferoedd partïon/corau - gwiriwch yn ofalus. Hefyd mae yna gystadleuaeth newydd i'r dysgwyr.

### DAWNSIO DISGO / CYFOES

Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf a wneir i'r gerddoriaeth. Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu gerddoriaeth yn yr iaith Gymraeg YN UNIG. Ni chaniateir propiau. Disgwylir i'r sawl sy'n cystadlu wisgo gwisg addas ar gyfer dawnsio disgo. Cyfrifoldeb y grŵp neu unigolyn yw sicrhau hawlfraint wrth ddefnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu'n chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol. Darperir chwaraewr cryno ddisgiau. **Diogelwch** -mae'n hanfodol fod yr hyfforddiant mae'r dawnswyr yn ei dderbyn yn ystyried agweddau o reolau iechyd a diogelwch. Rhaid sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad. Canllawiau ar gael o Adran yr Eisteddfod Glan-llyn ac ar ein gwefan www.urdd.cymru <http://www.urdd.cymru> a dewis Eisteddfod/cystadlu/Rheolau a Chanllawiau.

## OFFERYNNOL

Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd eu NI ddarperir cyfeilydd ar gyfer y cystadlaethau Offerynnol.(Petai chi methu dod o hyd i rywun cysylltwch â'r swyddfa o leiaf pythefnos o flaen llaw, i weld a fedrwn helpu). Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw ac eithrio yn y cystadlaethau Unawd Gitâr ac Offer Taro.

Cofier bod y cystadlaethau oll yn hunan ddewisiad, felly mae'n ofynnol i'r cystadleuydd ddarparu copi ar gyfer y beirniad. Golyga hyn bod angen anfon **dau** gopi i'r ysgrifennydd cylch erbyn **Chwefror 9fed.** Mae'n bwysig fod gennym y copïau ddigon ymlaen llaw fel bod y beirniaid yn cael amser i edrych arnynt.. Sylwer - Ni chaniateir newid darn hunan ddewisiad o'r Cylch i'r Rhanbarth nag o'r Rhanbarth i'r Genedlaethol.

## *CERDD DANT*

Nid oes telyn na thelynor yn yr Eisteddfod Gylch. Mae Urdd Gobaith Cymru yn darparu telynor swyddogol i'r Eisteddfod Rhanbarth. Mae angen sicrhau eich bod yn cofnodi cyweirnod ar y ffurflen gystadlu a byddwn yn hysbysu'r telynor o'r cyweirnod mewn da bryd, i'w cynorthwyo i ymarfer ymlaen llaw. Ni chaniateir cynorthwyo cystadleuydd mewn unrhyw fodd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa. Dylai'r datgeinydd a'r telynor sefydlu'r amseriad cyn dechrau canu. Caniateir ymarfer cwpwl o fariau ar y llwyfan.

## CÂN ACTOL

Os oes cangen o'r Urdd ym Môn am gystadlu yn y cystadlaethau Caneuon Actol rhaid i mi gael gwybod cyn y 29ain Ionawr 2016. Cysylltwch â eryl@urdd.org neu 01407 470 010

## YMGOM/CÂN ACTOL/CYFLWYNIAD LLAFAR

RHAID DECHRAU'R PERFFORMIAD Â GOFOD CHWARAE GWAG, maint tua 10m x 8m. NI CHANIATEIR gosod offer cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Yn yr un modd, NI CHANIATEIR gadael offer ar y llwyfan wedi i'r cwmni ddiweddu eu perfformiad. Amserir y perfformiad o'r dechrau - naill a'i drwy'r sain gyntaf neu drwy'r ystum cyntaf. Caniateir offer pwrpasol yn unig. Ni fydd Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Ynys Môn yn darparu meics radio yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth.

## ENSEMBLE LLEISIOL

COFIWCH mai'r iaith Gymraeg yn unig ddylid defnyddio yn y cystadlaethau *ensemble* lleisiol.

## GALWEDIGAETHOL

Mwy o gystadlaethau eleni eto! Ewch i bori drwy'r rhestr testunau.

Ynys Môn

**NEWIDIADAU YN Y RHESTR TESTUNAU**

Er gwaethaf pob ymdrech, o bryd i'w gilydd gorfodir ni i egluro, newid neu fanylu ar rai o'r testunau. Bwletin swyddogol yr Urdd yw 'O'r Newydd' ac ynddo cyhoeddir unrhyw newidiadau yn y Rhestr Testunau. Erfyniaf arnoch i'w hastudio'n drylwyr cyn mynd ati i ddysgu gwaith. Mae holl reolau'r Eisteddfod yn y Rhestr Testunau - os oes problem ffoniwch y swyddfa yng Nglan-llyn (01675) 541012. Cofiwch eu darllen yn ofalus i osgoi unrhyw broblemau ar ddydd yr Eisteddfod!!!

## *RHEOL Y DYSGWYR*

Gweler tudalen 18 yn y Rhestr Testunau. Gofynnir yn garedig i bawb ddilyn y rheol/canllawiau er mwyn tegwch i bawb.

**DIFFINIAD O GANGHENNAU'R URDD**

Adran Ysgol :- Pob cangen sydd yn gweithredu o fewn nail a'i Ysgol Gynradd neu Uwchradd yn unig.
Adran/Aelwyd : Cangen o'r Urdd sy'n agored i holl aelodau cofrestredig y Mudiad o'r oedran priodol, sy'n cyfarfod ac yn ymarfer yn annibynnol o'r gyfundrefn addysgol y tu allan i oriau a threfniant ysgol neu goleg, gyda'u rhaglen o weithgareddau o dymor yr Hydref ymlaen heb fod yn estyniad o waith yr Urdd o fewn ysgol neu goleg.
Bydd yr adrannau a'r aelwydydd yn cystadlu mewn cystadlaethau arbennig are eu cyfer. Gofynnaf i bawb ddilyn y rheolau hyn er mwyn tegwch (rhaid bod yr adran wedi cofrestru gan Ranbarth yr Urdd Môn) Nid yw'n ddoeth i aelodau o'r adran/aelwyd gystadlu mewn gwisg ysgol; cofiwch eich bod yn cynrychioli'r adran/aelwyd.
**Ysgolion Perfformio/Arbenigol** Croesawir Ysgolion Perfformio/~Arbenigol gystadlu yn yr Eisteddfod yn y categori ar gyfer unrhyw aelod o'r Urdd o dan yr oedran priodol, h.y. Cystadlaethau hynny nad sydd yn nodi eu bod ar gyfer unrhyw gategori arbennig. Os ydych ar ragor o arweiniad cysylltwch â'r Adran Eisteddfod a'r Celfyddydau.

**TOCYNNAU EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU 2016 SIR Y FFLINT.**

Mae Tocynnau Maes a Chyngherddau ar werth o Chwefror 1af. Os am archebu eich tocynnau cysylltwch â 0845 257 1639.

Cofiwch mai dyddiad cau archebu tocynnau cystadleuwyr am bris gostyngedig yw **Ebrill 29ain.** Cyn Mai 1af y gost fydd £5.00 y cystadleuydd ar ôl y 1af o Fai £7.00 y tocyn. Felly cofiwch archebu eich tocynnau yn syth ar ôl yr Eisteddfodau Rhanbarth os nad cyn hynny! Mae modd archebu tocynnau ar lein : www.urdd.cymru <http://www.urdd.cymru> yna cliciwch ar Eisteddfod/Ymweld â'r Eisteddfod/Prynu Tocynnau.

Ynys Môn

## DARNAU CYSTADLU

Os yw darn yn dod o lyfr arbennig, bydd rhaid i chi brynu'r llyfr hwnnw. Os yw'n dweud yn y Rhestr Testunau, "**Geiriau/Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod",** gallwch ei gael o Adran yr Eisteddfod yng Nglan-llyn ar 01678 541014. **COFIWCH** mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi ei gyhoeddi, **yn anghyfreithlon.** Mae'n bwysig ein bod yn cadw at y rheolau uchod gan mai rheolau hawlfraint ydyn nhw.

**Darnau hunan ddewisiad**: Os ydy'r gystadleuaeth yn un hunan ddewisiad, cofiwch fod angen rhoi 2 gopi o'r darn i'r ysgrifennydd cylch ar y dyddiad cau sef Chwefror 9fed(e.e.Offerynnol, ymgom, cân actol )

<u>GWAITH CARTREF</u> **Dyddiad cau'r gwaith cartref yw** 1 Mawrth 2016. **Dylid anfon y gwaith cartref yn uniongyrchol i** <u>Swyddfa'r Urdd, Glan-llyn</u> **erbyn y dyddiad hwn.**

## *AMSERU CYSTADLAETHAU*

Mae'n **hollol bwysig** mewn cystadleuaeth lle nodir amser penodol bod Ysgrifennydd y Cylch yn penodi rhywun i amseru. Amserir o'r nodyn cyntaf y cyfeilydd neu'r offerynnwr (p'un bynnag sy'n dechrau'r darn). Mae unrhyw egwyl/bwlch/saib rhwng darnau yn gynwysedig yn yr amser penodedig. Hefyd mae'r un rheol o ran amseru yn sefyll mewn cystadlaethau megis ymgom, detholiad llafar, cân actol ac ati.

****************************************************************************************************

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y pecyn hwn. Mae yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i fynd ati i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2016
Gobeithio y gwnewch gymryd y cyfle i gymryd rhan ac i fod yn rhan o'r hwyl a'r cystadlu.

Dymuniadau gorau gyda'r cystadlu a phob hwyl i bawb yn Eisteddfodau 2016!

Cofion cynnes

Eryl Williams
**Urdd Gobaith Cymru**
Uwch Swyddog Datblygu

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**


**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

Ynys Môn

# Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg

# Thema: Perthyn

Sut i gofrestru? Mae'r cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg ar lein yn 2016 hefyd. Felly os am gystadlu rhaid i chi fwydo'r wybodaeth mewn i'r system ar lein (yn union fel yr ydych yn gwneud a chystadlaethau llwyfan) ac yna argraffu'r wybodaeth, ac yna ei ddiogelu i'r gwaith. Ni fydd modd cystadlu drwy ddefnyddio'r hen gardiau.




---


Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481